SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU**
**A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME**
**COMMISSIONER** NORTH WALES



# Cynllun Heddlu a Throsedd
## 2021-2024

www.northwales-pcc.gov.uk

@NorthWalesPCC @NorthWalesPCC northwalesopcc

# Rhagair gan y CHTh

Fy enw i yw Andy Dunbobbin. Ym mis Mai 2021 cefais fy ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Fy ngwaith i yw sicrhau bod gan bobl Gogledd Cymru'r gwasanaeth heddlu gorau posibl.

Yn ystod fy ymgyrch etholiadol, cyflwynais weledigaeth glir drwy fy maniffesto ar gyfer Gogledd Cymru fwy diogel. Dyma'r weledigaeth y pleidleisiodd y cyhoedd drosti, dyma'r weledigaeth a geir yn y cynllun hwn, a'r weledigaeth y byddaf yn gweithio'n galed i'w chyflawni ar ran ein cymunedau. Yn y maniffesto hwnnw nodais fy null plismona, sef Gwasanaeth Heddlu sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned (COPS) a fydd, yn fy marn i, yn gwasanaethu ein holl gymunedau ledled Gogledd Cymru yn dda, nid yn unig wrth inni ddod allan o'r pandemig, ond hefyd wrth inni edrych ymlaen at y dyfodol .

Mae'n galonogol gweld bod Plismona Cymdogaeth yn Heddlu Gogledd Cymru yn flaenoriaeth wirioneddol i lawer ac y bydd yn parhau felly. Mae buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud yn y model Plismona Cymdogaeth ac mae'r ffocws yn canolbwyntio'n fawr ar atal troseddu, rhywbeth yr wyf yn ei gymeradwyo'n llwyr. Fel y nodwyd yn y Cynllun hwn, **plismona cymdogaeth yw sylfaen y Cynllun a'r sail ar gyfer cyflawni'r holl flaenoriaethau eraill.**

Fel eich CHTh, fi fydd eich llais wrth sefyll dros ddioddefwyr a chymunedau yn y system plismona a chyfiawnder troseddol. Yr wyf yn benderfynol o weithio gyda'n partneriaid i ddiogelu aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas gan gynnwys y rhai sy'n cael eu targedu gan grwpiau trosedd trefnedig a difrifol. Yr wyf wedi fy ngwreiddio yn y gymuned. Fi fydd y bont sy'n cysylltu Heddlu Gogledd Cymru â'n cymunedau ar draws Gogledd Cymru.

Fel Cynghorydd lleol profiadol, Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog a Gweithiwr Allgymorth Arloesedd Cymdeithasol, mae gennyf ddull arloesol o weithio ochr yn ochr â'r Prif Gwnstabl a sicrhau mai Gogledd Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn y DU. Yn yr amser byr ers cael fy ethol yr wyf eisoes wedi bod yn ystyried llawer o gyfleoedd gydag asiantaethau'r trydydd sector a phartneriaid statudol. Yr wyf wedi cyfarfod â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch cydweithio ar fenter iechyd meddwl, datblygu PACT ymhellach a gwneud ymholiadau cychwynnol ynghylch llunio mathau eraill o ariannu ar gyfer mentrau'r heddlu.

Dyma fy Nghynllun Heddlu a Throsedd cyntaf. Mae'n cael ei ysgrifennu ar adeg pan ydym yn dal i adfer o bandemig Covid-19. Roedd 2020 yn flwyddyn wahanol i unrhyw flwyddyn arall. Nid yn unig i'n cymunedau yng Ngogledd Cymru, ond i'r DU gyfan. Ac fel cymuned yng Ngogledd Cymru, fe wnaethom sefyll gyda'n gilydd a chefnogi ein gilydd drwy'r cyfnod anodd hwn. Yr ysbryd hwn o gymuned sy'n fy ngwneud yn falch o fod yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Yr wyf yn benderfynol o sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid i ddarparu gwasanaeth gwell fyth a bod mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn eu heddlu. Mae'r ffordd yr wyf yn bwriadu gwneud hynny, gyda chefnogaeth ein partneriaid, wedi'i gynnwys yn y Cynllun hwn. Yr wyf wedi ysgrifennu'r Cynllun hwn gyda'ch cymorth ac yr wyf yn ddiolchgar i'r cannoedd o bobl a gwblhaodd fy arolwg a'r rhai hynny yr wyf wedi cael y cyfle i gyfarfod ers cael fy ethol.

Yr wyf wedi gwrando ar yr hyn y mae'r cyhoedd ei eisiau. Yr wyf wedi gwrando ar bryderon y gymuned fusnes. Yr wyf wedi gwrando ar y sector gwirfoddol sy'n gweithio mor galed i'n cefnogi. Yr wyf wedi gwrando ar swyddogion yr heddlu a'r staff sy'n cyflawni eu rolau gyda'r proffesiynoldeb a'r ymroddiad mwyaf. Ac wrth gwrs yr wyf wedi gwrando ar y Prif Gwnstabl a'i brif swyddogion. Yr wyf hefyd wedi ymgynghori â'n partneriaid statudol. Yr wyf hefyd wedi ystyried canfyddiadau'r asesiad strategol cenedlaethol a'r asesiad lleol a gynhaliwyd gan Heddlu Gogledd Cymru.

yn monitro'n fanwl sut y mae Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid yn cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau a amlinellir yma. Mae'r Cynllun hwn yn hyblyg a bydd yn esblygu wrth i ni barhau i adfer o Covid-19. Edrychaf ymlaen at weld gweithio partneriaeth effeithiol yn y blynyddoedd sydd i ddod er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn.


HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

# SHAPING THE PLAN

## FY NGHYNLLUN

Mae fy nghynllun yn nodi fy ngweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru a sut yr wyf yn disgwyl i'r weledigaeth gael ei chyflawni. Mae'n seiliedig ar ymgynghoriad cyhoeddus a

## FY NGWELEDIGAETH

Mae cymunedau Gogledd Cymru yn ddiogel, mae dioddefwyr a phobl fregus yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, mae troseddu ac aildroseddu yn isel, ac mae gan bobl hyder mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol

## FY MLAENORIAETHAU

### CYFLWYNO CYMDOGAETHAU DIOGELACH

- Atal a mynd i'r afael a throsedd cefn gwlad a throsedd bywyd gwyllt
- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu
- Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd

### CEFNOGI DIODDEFWYR A CHYMUNEDAU

- Atal a mynd i'r afael â chamdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol
- Diogelu pobl fregus gan gynnwys plant
- Atal a mynd i'r afael a seiberdroseddu
- Sefydlu panel dioddefwyr
- Atal a mynd i'r afael a Throsedd Casineb

### SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL EFFEITHIOL A THEG

- Cyflwyno Strategaeth Troseddwyr Benywaidd Gogledd Cymru
- Cynyddu'r defnydd o Gyfiawnder Adferol
- Cefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio i ffwrdd o'r System Cyfiawnder Troseddol
- Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a chefnogi adsefydlu pobl sydd wedi troseddu

## CANLYNIADAU

- Mae cymunedau yn ddiogel ac mae yna ostyngiad o ran troseddu
- Mae dioddefwyr a phobl fregus yn teimlo'n ddiogel a'u bod nhw'n cael eu cefnogi
- Bydd yna ostyngiad o ran aildroseddu a gwelliant o ran adsefydlu
- Mae gan bobl hyder yn yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol

## CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

Yr wyf yn gosod rhai Cwestiynau Cyflawni Allweddol fel mesurau ar gyfer llwyddiant a fydd o gymorth wrth benderfynu a yw'r canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni. Byddaf yn defnyddio ystod o fesurau ansoddol a meintiol i ateb y cwestiynau hyn, a byddaf yn darparu diweddariadau cynnydd yn erbyn y canlyniadau i'r Panel Heddlu a Throsedd a fydd hefyd yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

1. Pa mor ddiogel yw ein cymunedau?
2. Pa mor dda yr ydym yn atal ac yn lleihau troseddu?
3. Pa mor dda y mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi i ymdopi ac adfer, a chymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol?
4. Pa mor dda yr ydym yn cefnogi pobl fregus?
5. Pa mor dda yr ydym yn lleihau aildroseddu?
6. Pa mor dda yr ydym yn adsefydlu pobl sydd wedi troseddu?
7. Pa mor hyderus yw pobl gyda'r System Cyfiawnder Troseddol?
8. Faint o hyder sydd gan bobl yn Heddlu Gogledd Cymru'n gyffredinol?

MEYSYDD BLAENORIAETH

# Cyflwyno Cymdogaethau Diogelach

## ATAL A MYND I'R AFAEL Â THROSEDD CEFN GWLAD A THROSEDD BYWYD GWYLLT

### PAM MAE HYN YN FLAENORIAETH?

Nid yw graddfa, cost, effaith gymdeithasol nac effeithiau eraill trosedd mewn ardaloedd cefn gwlad yn cael eu hamcangyfrif yn llawn. Maent yn cael eu tan-gofnodi, ac nid ydynt yn cael eu deall yn llawn yn aml. Y tu ôl i'r penawdau hyn mae straeon personol gan bobl mewn ardaloedd cefn gwlad o amharu ar fusnesau, bygythiadau corfforol, gofid emosiynol a chreulondeb. Yr ydym yn gwybod o ymchwil fod iechyd meddwl yn ein cymunedau cefn gwlad hefyd yn cyflwyno heriau sylweddol i bob asiantaeth a gyda'n gilydd mae'n rhaid i ni sicrhau cefnogaeth briodol i'r rhai sydd ei angen.

Mae ffermydd yn gartrefi teuluol yn ogystal â busnesau. Gall gwybod bod eich fferm yn cael ei gwylio a'i thargedu o bosibl gan gangiau troseddol arwain at bryder tymor hir a materion iechyd emosiynol i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ein cymunedau cefn gwlad yng Ngogledd Cymru. Yn ogystal, gall troseddau bywyd gwyllt, troseddau ceffylau a da byw ddod â phoen a dioddefaint mawr i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid gwyllt, ac yn yr achosion gwaethaf mae'r anifeiliaid yn marw.

Mae yna heriau penodol yn bodoli wrth fynd i'r afael â mathau eraill o droseddu pan maent yn cael eu cyflawni mewn ardaloedd cefn gwlad, er enghraifft, gwerthu cyffuriau, cam-drin domestig a byrgleriaeth, sy'n aml iawn yn cyflwyno heriau gwahanol i ddigwyddiadau mewn ardaloedd trefol.

Gall darparu gwasanaethau ar draws ardaloedd daearyddol eang, sy'n isel o ran poblogaeth, hefyd fod yn fwy costus nag mewn ardaloedd trefol, ac wrth i adnoddau barhau i ddod o dan bwysau, mae hyn yn dod yn fwy heriol fyth. Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau bod llais cefn gwlad yn cael ei glywed a bod costau personol, cymdeithasol ac economaidd troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu deall ac yn derbyn ymateb llawn.

Mae ardaloedd cefn gwlad fel arfer yn tueddu i fod yn fwy diogel, ond credaf fod effaith troseddu yn aml yn fwy ar ddioddefwyr yng nghefn gwlad oherwydd eu lleoliadau anghysbell ac ynysig, gan wneud iddynt deimlo'n fwy bregus ac yn bryderus. Fel eich Comisiynydd Heddlu a Throsedd, yr wyf wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod pobl a busnesau yn ein cymunedau cefn gwlad yn cael eu cyfran deg o adnoddau plismona ein rhanbarth ac yr wyf yn dawel fy meddwl y bydd y Prif Gwnstabl yn ystyried hyn pan fydd yn penderfynu ar faterion plismona gweithredol ledled Gogledd Cymru.

## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Cydweithio â'n hundebau ffermio a phartneriaid allweddol i sicrhau plismona effeithiol yn ein cymunedau cefn gwlad.
- Chwilio gyda phartneriaid am y potensial i ariannu ymchwil pellach i droseddau fferm a throseddau cefn gwlad eraill, a sut y gallai hyn fod yn gysylltiedig â rhwydweithiau troseddol trefnedig
- Cefnogi gwaith hanfodol a pharhaus ein Tîm Troseddau Cefn Gwlad

## BETH YDYM EISIAU EI GYFLAWNI?

- Cymunedau diogel a gostyngiad o ran troseddu

## CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

- Pa mor ddiogel yw ein cymunedau?
- Pa mor dda yr ydym yn atal ac yn lleihau troseddu?
- Faint o hyder sydd gan bobl yn Heddlu Gogledd Cymru'n gyffredinol?



# GWELLA EFFEITHLONRWYDD AC EFFEITHIOLRWYDD SWYDDOGION YR HEDDLU A STAFF YR HEDDLU

## PAM MAE HYN YN FLAENORIAETH?

Yn ystod fy ymgyrch etholiadol, dywedodd trigolion ar draws Gogledd Cymru wrthyf nad ydynt yn gweld unrhyw swyddogion heddlu mwyach. **Y brif flaenoriaeth i gymunedau yw gwella plismona gweladwy:** rhoi sicrwydd, casglu gwybodaeth ac amharu ar weithgarwch troseddol. Mae Timau Plismona Cymdogaeth leol (TPC) yn sicrhau bod plismona'n weledol ac yn rhoi sicrwydd ond maent hefyd yn cael eu hystyried yn ffynhonnell wybodaeth amhrisiadwy i fynd i'r afael â'r troseddoldeb mwyaf difrifol a threfnedig. Mae gwaith ein Huned Trosedd Trefnedig Rhanbarthol (ROCU) ac Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU) yn dibynnu'n drwm ar y wybodaeth leol a geir gan y TPC. **Plismona cymdogaeth yw sylfaen y Cynllun hwn**.

Er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n amrywio o werthu cyffuriau yn ein trefi i drosedd cefn gwlad ar ein ffermydd, mae'n hanfodol bod gan bob un o gymunedau Gogledd Cymru berthynas a phrofiadau cadarnhaol gyda'u heddlu lleol, sy'n gymorth i chwalu'r rhwystrau presennol a grymuso trigolion i ddweud eu dweud ar ble y dylem ni fel gwasanaeth ganolbwyntio ein hymdrechion.

Yn ogystal â chynyddu nifer y swyddogion heddlu yn ein cymunedau, yr wyf hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda'r Prif Gwnstabl i wella'r gefnogaeth ddigidol sydd ar gael i'n swyddogion a'n staff presennol gan gynyddu faint o amser y maent yn ei dreulio yn y gymuned.



## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Dros fy nhymor tair blynedd yn y swydd, byddaf yn cynyddu nifer y swyddogion heddlu a staff
- Darparu atebion technolegol i gefnogi ein timau i ymladd trosedd a diogelu ein cymunedau
- Darparu offer ac offer digidol i'n gweithlu weithio'n effeithiol

## BETH YDYM EISIAU EI GYFLAWNI?

- Cymunedau diogel a gostyngiad o ran troseddu
- Mwy o ddewis o ddulliau cyswllt i'r cyhoedd gan arwain at well ymgysylltiad a boddhad
- Gwell effeithlonrwydd mewn prosesau cyswllt, gan hyrwyddo'r dull cyswllt mwyaf effeithlon ac effeithiol i'r Heddlu ac i'n cymunedau
- Y gallu i gasglu tystiolaeth a gwybodaeth yn ddigidol gan y cyhoedd a thrwy hynny wella effeithlonrwydd a chefnogi'r broses ymchwilio
- Caniatáu i ddinasyddion ymgysylltu â'r Heddlu drwy sianeli digidol sy'n fwy addas i'w hanghenion
- Mwy o hyblygrwydd ac ystwythder o ran lleoliad gwaith a'r amgylchedd
- Adnoddau plismona gweithredol i fod yn fwy gweledol er mwyn cynyddu hyder y cyhoedd
- Mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gallu i gyhoeddi negeseuon cadarnhaol a diweddariadau yn hawdd

## CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

- Pa mor ddiogel yw ein cymunedau?
- Pa mor dda yr ydym yn atal ac yn lleihau troseddu?
- Faint o hyder sydd gan bobl yn Heddlu Gogledd Cymru'n gyffredinol?

# GWELLA DIOGELWCH AR Y FFYRDD

## PAM MAE HYN YN FLAENORIAETH?

Mae gormod o bobl yn marw neu'n cael eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd. Mae angen addysg a chodi ymwybyddiaeth ar bob defnyddiwr y ffordd, yn ogystal â pheirianneg i wneud y ffyrdd presennol yn fwy diogel a chynllunio ffyrdd sy'n annog diogelwch ar brosiectau adeiladu ffyrdd newydd neu brosiectau adnewyddu ffyrdd. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y buddsoddiad uchaf erioed o £75m mewn Teithio Llesol y flwyddyn nesaf. Byddaf yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yng Ngogledd Cymru. Byddaf yn sicrhau bod gorfodaeth briodol yn cael ei chefnogi fel bod y rhai sy'n achosi'r perygl mwyaf ar ein ffyrdd yn deall na chaiff ei oddef. Mae troseddwyr a grwpiau trosedd trefnedig yn defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd i gyflawni eu busnes, felly byddaf hefyd yn targedu'r rhai sy'n gwneud hynny fel na allent ddefnyddio'r ffyrdd i ecsbloetio pobl fregus na niweidio ein cymunedau.



## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Cefnogi gorfodaeth ar gyfer ymgyrchoedd gyrru'n beryglus ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ranbarthol i sicrhau bod unrhyw un sy'n gyrru drwy ein hardal yn deall na fydd gyrru peryglus neu ddiofal yn cael ei oddef.
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, i sicrhau bod diogelwch ar y ffyrdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar draws y rhanbarth, a bod unrhyw brosiectau adfywio yn ystyried yr angen i gadw holl ddefnyddwyr y ffyrdd yn ddiogel
- Gweithio gyda chymunedau a Chynghorwyr lleol i nodi a mynd i'r afael â mannau lle mae goryrru'n digwydd yn aml er mwyn gwneud ein strydoedd yn fwy diogel
- Targedu troseddwyr a grwpiau trosedd trefnedig sy'n defnyddio ein ffyrdd i'w hatal rhag defnyddio'r ffyrdd hynny, amharu ar eu gweithgareddau a diogelu ein cymunedau
- Gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i gynyddu'r defnydd o dechnoleg Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR) sy'n arf effeithiol i fynd i'r afael â throsedd trefnedig a difrifol

## BETH YDYM EISIAU EI GYFLAWNI?

- Cymunedau diogel a gostyngiad o ran troseddu
- Pobl â hyder yn yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol

## CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

- Pa mor ddiogel yw ein cymunedau?
- Pa mor dda yr ydym yn atal ac yn lleihau troseddu?
- Faint o hyder sydd gan bobl yn Heddlu Gogledd Cymru'n gyffredinol?

MEYSYDD BLAENORIAETH

# Cefnogi dioddefwyr a chymunedau

## ATAL A MYND I'R AFAEL Â CHAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL

### PAM MAE HYN YN FLAENORIAETH?

Er bod Cam-drin Domestig yn parhau i gael ei dan-gofnodi, mae miloedd o ferched yn riportio rhyw fath o gam-drin domestig neu drais rhywiol i'r heddlu bob dydd ac eto mae gormod ohonynt yn cael eu siomi am nad ydynt yn cael eu credu neu'n cael gwrandawiad, felly mae'n hanfodol ein bod yn gwneud mwy i'w cefnogi. Bydd cynyddu hyder dioddefwyr yn annog mwy o ddioddefwyr i gamu ymlaen.

Yr oedd yna gefnogaeth lethol gan y cyhoedd o ran cynnwys Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel un o'm meysydd blaenoriaeth ac yr ydym yn ffodus yng Ngogledd Cymru fod gennym drydydd sector o bobl ymroddedig a phrofiadol yn barod i gefnogi ein dioddefwyr, fel y maent wedi'i wneud ers blynyddoedd lawer.

Bydd Gogledd Cymru yn amgylchedd gelyniaethus i gyflawnwyr drwy ddarparu technegau ymchwilio effeithiol, diogelu mewn partneriaethau a defnydd arloesol o dechnoleg gan ei gwneud yn llai tebygol iddynt droseddu ac aildroseddu.

## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Sicrhau bod y Strategaeth Bregusder a Chamfanteisio yn cael ei gweithredu a chanolbwyntio ar gamau gweithredu fel addysg meithrin perthynas iach, mynd i'r afael â'r gostyngiad yn y cyfraddau collfarnu trais, a hyfforddiant i staff rheng flaen ymateb yn well i ddatgeliadau o gam-drin
- Gwella ein hymwybyddiaeth a'n hymateb i ddioddefwyr stelcian ac aflonyddu
- Gweithio gyda phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol, i sicrhau bod dioddefwyr Cam-drin Domestig yn cael eu cefnogi ledled y system, gan gynnwys defnyddio safleoedd rhoi tystiolaeth o bell ar gyfer dioddefwyr bregus
- Gwnawn weithio gyda phartneriaid i ddiogelu goroeswyr cam-drin domestig a chyflawni ystod o ymyriadau amlasiantaethol.
- Sicrhau bod y lleiafrif o ddioddefwyr sy'n ddynion ac sy'n dioddef o'r troseddau hyn yn cael yr un gefnogaeth
- Gwnawn sicrhau bod mecanweithiau mewn lle er mwyn asesu risg, dyrannu'r adnoddau priodol ym mhob cam a chynnal yr ymchwiliadau gorau posibl.
- Gwnawn gyfarparu ein staff gyda'r ddealltwriaeth i adnabod arwyddion Cam-drin Domestig yn ei holl ffurfiau.
- Cynyddu hyder pob sector o'r gymuned i riportio Cam-drin Domestig.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu dioddefwyr Cam-drin Rhywiol a chyflawni ystod o ymyriadau amlasiantaethol.
- Gweithio gyda phartneriaid ar gyflawni cynlluniau gweithredu ar y cyd er mwyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd i holl ddioddefwyr.
- Targedu troseddwyr pob math o gam-drin rhywiol a dod â nhw o flaen eu gwell.

## BETH YDYM EISIAU EI GYFLAWNI?

- Cymunedau diogel a gostyngiad o ran troseddu
- Dioddefwyr a phobl fregus yn teimlo eu bod nhw’n cael eu cefnogi
- Gostyngiad o ran aildroseddu a gwelliant o ran adsefydlu
- Pobl â hyder yn yr Heddlu a’r System Cyfiawnder Troseddol

## CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

- Pa mor dda yr ydym yn atal ac yn lleihau troseddu?
- Pa mor dda y mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi i ymdopi ac adfer, a chymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol?
- Pa mor dda yr ydym yn cefnogi pobl fregus?
- Pa mor dda yr ydym yn lleihau aildroseddu?
- Pa mor dda yr ydym yn adsefydlu pobl sydd wedi troseddu?
- Pa mor hyderus yw pobl gyda’r System Cyfiawnder Troseddol?
- Faint o hyder sydd gan bobl yn Heddlu Gogledd Cymru’n gyffredinol?



## DIOGELU POBL FREGUS

### PAM MAE HYN YN FLAENORIAETH?

Mae mynd i'r afael â chamfanteisio ar y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas yn parhau i fod yn un o'r heriau pwysicaf i ni i gyd. Mae gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth effeithiol i leihau bregusder ac ecsploetio yn flaenoriaeth i bob asiantaeth statudol a'n cydweithwyr yn y sector gwirfoddol ledled Gogledd Cymru.

Diogelu'r cyhoedd yw un o'r agweddau pwysicaf ar blismona ac o'm rôl benodol. Mae gan yr heddlu, ynghyd â phartneriaid, ddyletswydd i ddiogelu'r rhai sy'n llai abl i amddiffyn eu hunain, yn bennaf oherwydd bod pobl fregus mewn mwy o berygl o ddioddef trosedd a chael eu targedu gan grwpiau troseddau trefnedig a difrifol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwasanaeth yr heddlu wedi gwella ei ddealltwriaeth o fregusder, a neb yn fwy felly na Heddlu Gogledd Cymru sydd wedi blaenoriaethu'r maes hwn. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd angen i'r Heddlu barhau i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i amddiffyn pobl cyn i droseddau gael eu cyflawni.

Mae'r effaith a'r materion sy'n codi o achosion o gam-drin domestig, camfanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth fodern, llinellau cyffuriau ac iechyd meddwl yn aml yn llawer ehangach na phlismona yn unig, a dim ond mewn partneriaeth â'n partneriaid awdurdod lleol, iechyd a'r trydydd sector y gellir ymateb yn effeithiol. Mae Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn enghraifft o lawer o asiantaethau, statudol a gwirfoddol, yn dod at ei gilydd gyda nod cyffredin ac mae'n fodel o weithio mewn partneriaeth yr wyf yn ei gefnogi'n llwyr.

Er enghraifft, efallai na fydd salwch meddwl yn gysylltiedig ag unrhyw drosedd o gwbl ond eto mae'n rhoi galwadau enfawr ar wasanaeth yr heddlu. Yn hytrach na dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif, byddaf yn gweithio gyda'n partneriaid statudol i sicrhau bod ymateb partneriaeth effeithiol yn cael ei ddarparu. Mae'r Prif Gwnstabl a mi o'r un farn. Ni ddylai pobl sydd â salwch meddwl byth gael eu rhoi yn nalfa'r heddlu. Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod darpariaeth ar gael o fewn y gwasanaeth iechyd fel nad oes neb yn cael eu cadw yn nalfa'r heddlu oherwydd diffyg darpariaeth addas.

Bydd Gogledd Cymru yn amgylchedd mwy gelyniaethus i droseddwyr Caethwasiaeth Fodern a throseddau eraill sy'n ceisio targedu pobl fregus. Bydd yn glir i droseddwyr posibl na fydd troseddau o'r fath yn cael eu goddef ac yn ei gwneud yn llai tebygol y byddent yn troseddu ac yn ail-droseddu.

## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol, gan ystyried cyfleoedd i ymyrryd, atal ac osgoi iddynt ddod yn rhan o'r system yn y dyfodol
- Gweithio gyda phartneriaid yn y Bwrdd Cynllunio Ardal a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i leihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac effaith camddefnyddio alcohol a sylweddau
- Gweithio gyda phartneriaid i wella cyfathrebu rhwng yr heddlu a'r rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl neu anawsterau dysgu a hyrwyddo cerdyn Cadw Cymru'n Ddiogel
- Gweithio i gefnogi mannau diogel, cyfeillgar nad ydynt yn ddalfeydd ar gyfer y rhai sy'n dioddef o argyfwng neu sydd mewn perygl o gael eu cadw o dan Adran 136 neu 135 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Codi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl drwy gefnogi ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol
- Annog dioddefwyr sydd â salwch meddwl i riportio troseddau casineb
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i adnabod arwyddion Caethwasiaeth Fodern yn gynnar ac ymateb yn safonol.
- Sicrhau bod gan ddioddefwyr Caethwasiaeth Fodern ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Gogledd Cymru mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill
- Sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn ystyried Caethwasiaeth Fodern fel mater arferol o'i weithgarwch caffael ei hun a bod llwybrau atgyfeirio priodol wedi'u sefydlu

## BETH YDYM EISIAU EI GYFLAWNI?

- Cymunedau diogel a gostyngiad o ran troseddu
- Dioddefwyr a phobl fregus yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi
- Gostyngiad o ran aildroseddu a gwelliant o ran adsefydlu
- Pobl â hyder yn yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol

## CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

- Pa mor ddiogel yw ein cymunedau?
- Pa mor dda yr ydym yn atal ac yn lleihau troseddu?
- Pa mor dda y mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi i ymdopi ac adfer, a chymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol?
- Pa mor dda yr ydym yn cefnogi pobl fregus?
- Pa mor dda yr ydym yn lleihau aildroseddu?
- Faint o hyder sydd gan bobl yn Heddlu Gogledd Cymru'n gyffredinol?





# ATAL A MYND I'R AFAEL Â SEIBERDROSEDDU

## PAM MAE HYN YN FLAENORIAETH?

Mae natur troseddu wedi newid yn ddramatig dros y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd sgamiau ac ymosodiadau ar-lein yw bron i hanner yr holl droseddau. Rydych yn fwy tebygol o ddioddef twyll neu drosedd ar-lein nag ydych o unrhyw drosedd arall. Mae realiti'r troseddau hyn yn golygu y gall pobl golli eu cynilon oes o fewn eiliadau.

Mae gweithgarwch seiberdroseddu yn tyfu'n gyflym ac yn esblygu'n sydyn, gan ddod yn fwy ymosodol ac yn fwy medrus yn dechnegol. Oherwydd hyn mae'n fygythiad sylweddol, ac yn fygythiad sydd ar gynnydd i fusnesau'r DU. Mae Asesiad Seiberdroseddu'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn amcangyfrif bod cost seiberdroseddu i economi'r DU yn biliynau o bunnoedd y flwyddyn ac yn tyfu.

Mae seiberdroseddu yn derm pellgyrhaeddol sy'n amrywio o droseddoldeb confensiynol sydd ddim ar-lein ond sydd â llwybr digidol, i droseddau seiber-ddibynnol na ellir ond eu cyflawni drwy ddefnyddio cyfrifiaduron a thechnoleg.

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru Dîm Seiberdroseddu sefydledig sy'n cynnwys Ditectif Ringyll, tri Ymchwilydd Seiberdroseddu a Swyddog Atal/Diogelu pwrpasol. Ategir hyn gan y defnydd o Heddlu Gwirfoddol Seiber a Gwirfoddolwyr Seiber sy'n darparu arbenigedd wedi ei ennill yn y diwydiant cyfrifiadurol. Mae'n hanfodol bod dull gwasanaethau'r heddlu o ymdrin â seiberdroseddu wedi'i gydlynu'n dda ac yn effeithiol o ran darparu gwasanaeth o safon i bobl Gogledd Cymru. Mae troseddau seiberdrosedd yn dal i gael eu tan-gofnodi'n fawr yn genedlaethol a byddwn yn gweithio i feithrin hyder pobl a busnesau yng Ngogledd Cymru i riportio'r troseddau hyn.





# BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Er mwyn gwella hyfforddiant i'n holl gymunedau a busnesau, byddaf yn eich cefnogi i gael y modd i gadw'n ddiogel.
- Gweithio'n agos gyda'n hasiantaethau cenedlaethol sy'n arwain ar fynd i'r afael â seiberdroseddu a thwyll yn y DU, gan eu dwyn i gyfrif a gweithio gyda nhw i amddiffyn pobl Gogledd Cymru.
- Byddaf yn buddsoddi ymhellach mewn pecynnau meddalwedd a thechnoleg caledwedd fel bod swyddogion yn aros un cam ar y blaen i'r rhai sy'n torri'r gyfraith.
- Gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Canolfan Gwytnwch Seiber Cymru Gyfan i amddiffyn pobl rhag y broblem gynyddol o sgamiau ac ymddygiad twyllodrus.
- Sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn ymgysylltu â'r Ganolfan Rheolaeth Genedlaethol (cyfleuster diogelu seiberddiogelwch a gefnogir yn genedlaethol ar gyfer heddluoedd ledled Cymru a Lloegr) fel rhan o'i strategaeth atal.

# BETH YDYM EISIAU EI GYFLAWNI?

- Cymunedau diogel a gostyngiad o ran troseddu
- Dioddefwyr a phobl fregus yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi
- Gostyngiad o ran aildroseddu a gwelliant o ran adsefydlu
- Pobl â hyder yn yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol

# CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

- Pa mor dda yr ydym yn atal ac yn lleihau troseddu?
- Pa mor dda yr ydym yn cefnogi pobl fregus?
- Pa mor dda yr ydym yn lleihau aildroseddu?

# SEFYDLU PANEL DIODDEFWYR

## PAM MAE HYN YN FLAENORIAETH?

Mae dioddefwyr a chymunedau y mae troseddu yn effeithio arnynt yn cael eu hanwy byddu yn rhy aml. Gall trawma troseddu barhau am flynyddoedd, a gall y ffordd y mae rhai dioddefwyr yn cael eu trin ar ôl riportio trosedd deimlo fel erledigaeth ychwanegol iddynt.

Yr wyf am sicrhau bod pob dioddefwr yn cael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i wella o'u profiad, felly mae cael system gyfiawnder sy'n rhoi ystyriaeth i'w hanghenion yn hanfodol. Mae ein systemau'n aml yn methu â rhoi ystyriaeth i anghenion penodol dioddefwyr a goroeswyr trosedd. Nid yw pob dioddefwr yn ymddwyn yn yr un ffordd. Mae angen i ni wrando'n iawn a chaniatáu iddynt egluro pa gefnogaeth maen nhw ei angen.

Mae'r pandemig wedi dangos i ni pa mor bwysig yw cael gwasanaethau cam-drin domestig a gwasanaethau rhywiol wedi'u hariannu'n dda i'n cymunedau. Gwelsom pa mor bwysig yw'r gwasanaethau hyn yn ystod argyfwng y Coronafeirws, gyda rhai gwasanaethau'n gweld mwy na dwbl y nifer arferol o ddioddefwyr yn cysylltu â nhw; ond maent wedi bod yn hanfodol ers tro i ddarparu cymorth i ddioddefwyr.



# BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Datblygu'r Ganolfan Cymorth Dioddefwyr ymhellach drwy wneud y gwasanaeth yn fwy lleol – yn cydweithio â holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a sefydliadau'r trydydd sector.
- Sefydlu Panel Dioddefwyr sy'n rhoi cyfle i ddioddefwyr a goroeswyr ddweud wrthym beth y gellir ei wneud yn well a'm dal i, yr heddlu ac asiantaethau ehangach i gyfrif.
- Gweithio gyda CHTh eraill a'r Comisiynydd Dioddefwyr i dynnu sylw at anghyfiawnderau yn erbyn dioddefwyr a chefnogi diwygio deddfwriaeth i ddiogelu hawliau dioddefwyr.
- Brwydro am fwy o arian cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr.
- Adolygu ffrydiau ariannu cyfredol i sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a bod dioddefwyr yn cael yr ymyriad arbenigol a'r ymyriad sydd wedi'i dargedu y maent ei angen.
- Adolygu contractau comisiynu i ddarparu contractau cynaliadwy tymor hir lle bynnag y bo modd.

# BETH YDYM EISIAU EI GYFLAWNI?

- Dioddefwyr a phobl fregus yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi
- Pobl â hyder yn yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol

# CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

- Pa mor dda y mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi i ymdopi ac adfer, a chymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol?
- Pa mor dda yr ydym yn cefnogi pobl fregus?
- Pa mor hyderus yw pobl gyda'r System Cyfiawnder Troseddol?
- Faint o hyder sydd gan bobl yn Heddlu Gogledd Cymru'n gyffredinol?

# ATAL A MYND I'R AFAEL Â THROSEDD CASINEB

## PAM MAE HYN YN FLAENORIAETH?

Mae pob trosedd yn ofnadwy i'r unigolion dan sylw ac yn gallu bod yn fygythiad i deimlo'n ddiogel, a dim yn fwy felly na throsedd casineb; sef ymosodiadau corfforol a geiriol wedi'u hanelu atoch chi dim ond oherwydd pwy ydych chi a'r bywyd yr ydych chi'n ei fyw.

Yn anffodus, nid ydym yn rhydd o ddigwyddiadau o'r fath yng Ngogledd Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf yr ydym wedi gweld pryderon ynghylch undod cymunedol yn ymwneud ag ail gartrefi a phobl sy'n teithio i Ogledd Cymru yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud.

Mae anghydraddoldeb hiliol a gwahaniaethu wedi bod yn faes allweddol sy'n peri pryder mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach ers blynyddoedd lawer. Arweiniodd marwolaeth drasig Stephen Lawrence yn y 1990au at gyhoeddi adroddiad Macpherson ym 1999, a dyna pryd y dechreuodd plismona ddeall yn iawn y newidiadau yr oedd angen eu gwneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud, mae wedi dod yn amlwg nad oes digon wedi'i gyflawni a bod ein cymunedau am weld mwy o weithredu a newid gwirioneddol. Mae mudiad y Black Lives Matter yn y DU yn ein hatgoffa'n glir o hynny.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau wedi ymrwymo i sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn dod yn flaenoriaeth o'r newydd i ni. Mae ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar y Cyd yn amlinellu'r hyn a wneir, ar y cyd â'n cymunedau, i sicrhau bod anghyfartaledd hiliol yn cael ei leihau yn Heddlu Gogledd Cymru. Bydd yn amlinellu camau i wella hyder y cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn yr heddlu ac i gynyddu cynrychiolaeth ymhlith ein swyddogion a'n staff, gyda'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni ymrwymiadau'r cynllun yn amserol.

Fel Comisiynydd, mae gennyf rôl bwysig i'w chwarae o ran gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol a'u dwyn ynghyd i gydweithio er budd y cyhoedd, tra hefyd yn comisiynu gwasanaethau ar gyfer ardal yr heddlu. Byddaf yn gweithio gyda'r holl Brif Gwnstabliaid, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, a phartneriaid cyfiawnder troseddol yng Nghymru, i fynd ar drywydd canlyniadau ar y cyd ar gydraddoldeb hiliol.

Byddaf yn pwyso i sicrhau bod partneriaid yn cymryd cydraddoldeb hiliol o ddifrif, yn cael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd, a bod gwasanaethau a gomisiynir yn deall eu rhwymedigaethau cydraddoldeb. Byddaf hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo dull 'un gwasanaeth cyhoeddus' o ymdrin â chydraddoldeb hiliol ledled Cymru.

## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Ymgysylltu â grwpiau penodol i ddysgu o'u profiad a gweithio gyda nhw i fynd i'r afael â throsedd casineb yn eu cymunedau.
- Sicrhau bod yr holl droseddau casineb yn cael eu cymryd o ddifrif, gan lansio ymgyrch ledled y rhanbarth i addysgu'r holl drigolion am effaith trosedd casineb a sicrhau dull dim goddefgarwch iddo yng Ngogledd Cymru.
- Adolygu data trosedd casineb a phrofiadau dioddefwyr i sicrhau bod dioddefwyr trosedd casineb yn cael y gwasanaeth mwyaf priodol ac yn fodlon â'r ymateb a gânt
- Annog dioddefwyr trosedd casineb i roi gwybod am ddigwyddiadau fel y gallent gael y gefnogaeth briodol
- Gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i gyflawni Strategaeth Cynrychiolaeth y Gweithlu a gwneud yr Heddlu yn fwy cynrychioliadol o'n cymunedau amrywiol

## BETH YDYM EISIAU EI GYFLAWNI?

- Cymunedau diogel a gostyngiad o ran troseddu
- Dioddefwyr a phobl fregus yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi
- Gostyngiad o ran aildroseddu a gwelliant o ran adsefydlu
- Pobl â hyder yn yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol

## CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

- Pa mor ddiogel yw ein cymunedau?
- Pa mor dda yr ydym yn atal ac yn lleihau troseddu?
- Pa mor dda y mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi i ymdopi ac adfer, a chymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol?
- Pa mor dda yr ydym yn cefnogi pobl fregus?
- Pa mor hyderus yw pobl gyda'r System Cyfiawnder Troseddol?
- Faint o hyder sydd gan bobl yn Heddlu Gogledd Cymru'n gyffredinol?



MEYSYDD BLAENORIAETH

# System Cyfiawnder Troseddol effeithiol a theg

## CYFLWYNO STRATEGAETH TROSEDDWYR BENYWAIDD GOGLEDD CYMRU

### PAM MAE HYN YN FLAENORIAETH?

Mae merched yn cynrychioli llai na 5% o boblogaeth y carchardai yng Nghymru a Lloegr ac maent yn fwy tebygol na dynion o gael eu dedfrydau i gyfnodau byr o garchar.

Yn 2018, roedd 77% o'r dedfrydau o garchar a roddwyd i ferched yn parhau'n llai na 12 mis, mae'r carchariadau tymor byr hyn yn cael effaith enfawr ar blant sy'n cael eu heffeithio'n ddrwg gan garcharu'r fam. Dengys ymchwil fod plant sydd wedi cael y profiad o'u mamau yn mynd i garchar mewn mwy o berygl o fod yn ddi-waith, o ddefnyddio cyffuriau, dioddef o alcoholiaeth a bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn ddiweddarach yn eu bywyd.

Mae'r rhan fwyaf o droseddu benywaidd yn cael ei ysgogi gan faterion ariannol yn hytrach na rhai treisgar ac mae llawer o ferched hefyd yn cael eu hanfon i'r carchar am gyflawni trosedd i gefnogi defnydd rhywun arall o gyffuriau.

Mae cysylltiadau cryf rhwng ymddygiad troseddol merched a'u bod nhw wedi dioddef cam-drin domestig yn gorfforol ac yn emosiynol, rheolaeth gymhellol a cham-drin rhywiol. Nid oes amddiffyniad effeithiol i ferched sy'n cael eu gyrru i droseddu o ganlyniad i gamdriniaeth.

Bydd yr ymrwymiad yn Strategaeth Troseddwyr Benywaidd Gogledd Cymru yn cydnabod anghenion a gwendidau penodol merched o fewn y system cyfiawnder troseddol. Bydd yn amlinellu'r mesurau y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei gymryd i gyflawni diwygiad traws-lywodraethol. Bydd pwyslais ar bwysigrwydd ymyrraeth gynnar, gan gynnwys ymgysylltu a dargyfeirio, gwarediadau y tu allan i'r llys a ffocws ar atebion yn y gymuned.

Y nod fydd lleihau'r defnydd o ddedfrydau byr i ferched drwy fabwysiadu dull mwy ataliol, o fewn y gymuned sydd nid yn unig yn gyfle i wneud rhywbeth radical wrth geisio lleihau poblogaeth y carchardai ond hefyd i wella'r canlyniadau tymor hir i ferched a'u teuluoedd.

Yr wyf wedi ymrwymo i weithio gyda'r holl asiantaethau Cyfiawnder Troseddol a'm cyd Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru a Lloegr i wella'r system cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru fel ei fod yn gweithio'n deg ac yn effeithiol.

## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Cyhoeddi strategaeth troseddwyr benywaidd, sy'n canolbwyntio ar y dull iechyd cyhoeddus o ddargyfeirio oddi wrth droseddu
- Gweithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i wneud y mwyaf o'n cyd-effeithiolrwydd
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar drawsnewid y system gyfiawnder yng Nghymru i ferched gan weithredu'r Glasbrint sy'n nodi'r newidiadau sydd eu hangen
- Cefnogi merched i fyw bywydau di-drosedd, cadarnhaol ac iach, gwella lles a gwneud cymunedau'n fwy diogel
- Gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a phartneriaid i rannu dysg y gellir ei fabwysiadu ar gyfer genethod dan 18 oed a chydweithio i sicrhau parhad ymyriadau mewn perthynas â merched ifanc sy'n trosglwyddo i wasanaethau oedolion
- Dargyfeirio merched, lle y bo'n briodol, i ffwrdd o droseddu ac i wasanaethau cymorth cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar ferched yn y gymuned ac sy'n diwallu eu hanghenion

## BETH YDYM EISIAU EI GYFLAWNI?

- Cymunedau diogel a gostyngiad o ran troseddu
- Dioddefwyr a phobl fregus yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi
- Gostyngiad o ran aildroseddu a gwelliant o ran adsefydlu

## CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

- Pa mor ddiogel yw ein cymunedau?
- Pa mor dda yr ydym yn atal ac yn lleihau troseddu?
- Pa mor dda yr ydym yn cefnogi pobl fregus?
- Pa mor dda yr ydym yn lleihau aildroseddu?
- Pa mor dda yr ydym yn adsefydlu pobl sydd wedi troseddu?
- Pa mor hyderus yw pobl gyda'r System Cyfiawnder Troseddol?
- Faint o hyder sydd gan bobl yn Heddlu Gogledd Cymru'n gyffredinol?



## CYNYDDU'R DEFNYDD O GYFIAWNDER ADFEROL

### PAM MAE HYN YN FLAENORIAETH?

Yr wyf yn credu'n gryf yng ngrym cyfiawnder adferol. Mae'n rhoi cyfle i ddioddefwyr gyfathrebu â'r troseddwr i egluro gwir effaith y drosedd, cael atebion i gwestiynau, a cheisio trwsio'r niwed. Mae hefyd yn dwyn troseddwyr i gyfrif am yr hyn y maent wedi'i wneud ac yn eu helpu i gymryd cyfrifoldeb, gwneud newidiadau ac atal unrhyw aildroseddu.

Mae cyfiawnder adferol yn aml yn cynnwys cyfarfod, lle mae dioddefwr yn cwrdd â'r troseddwr wyneb yn wyneb. Weithiau, pan nad yw cwrdd wyneb yn wyneb yn syniad da bydd y dioddefwr a'r troseddwr yn cyfathrebu drwy lythyron, cyfweliadau wedi eu recordio neu ar fideo yn lle hynny. Mae'r broses yn cael ei reoli gan hwyluswyr sy'n cwrdd â'r dioddefwr a'r troseddwr ar wahân i drafod sut maent am elwa o'r broses.

Mae llawer o ddioddefwyr yn teimlo nad yw'r system cyfiawnder troseddol yn caniatáu iddynt leisio eu barn. Ond mae ymchwil y Llywodraeth yn dangos bod 85% o ddioddefwyr sy'n cymryd rhan mewn cyfiawnder adferol yn gweld y broses yn ddefnyddiol. Mae cyfiawnder adferol hefyd yn helpu i leihau troseddu - gydag ymchwil a ariennir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos ei fod yn lleihau aildroseddu o 14%. Mae Cod Ymarfer y Dioddefwyr yn rhoi'r hawl i ddioddefwyr trosedd gael gwybod am Gyfiawnder Adferol a sut i gael mynediad ato, ond mae ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai dim ond 5% o ddioddefwyr sydd â throseddwr hysbys sy'n cofio iddynt gael y wybodaeth hon. Byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i ehangu'r defnydd o Gyfiawnder Adferol yng Ngogledd Cymru.

## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Ehangu mynediad i raglenni cyfiawnder adferol a fydd yn annog troseddwyr i ystyried ac adolygu effaith eu gweithredoedd ac annog adsefydlu
- Gwella canlyniadau i ddioddefwyr a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed drwy ddefnyddio dulliau adferol yn ehangach
- Comisiynu gwasanaethau adferol sy'n briodol i oedran, sy'n gynaliadwy ac ystyrlon, gan ystyried anghenion oedolion o bob oed
- Cefnogi mwy o hyfforddiant am Gyfiawnder Adferol i holl swyddogion yr heddlu a staff sydd â chysylltiad â dioddefwyr trosedd.
- Gwella mynediad i Gyfiawnder Adferol i bobl y mae troseddau'n effeithio arnynt lle mae'r cyfle'n aml yn cael ei anwybyddu, megis cam-drin rhywiol, cam-drin domestig a throsedd casineb.

## BETH YDYM EISIAU EI GYFLAWNI?

- Dioddefwyr a phobl fregus yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi
- Gostyngiad o ran aildroseddu a gwelliant o ran adsefydlu
- Pobl â hyder yn yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol

## CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

- Pa mor dda y mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi i ymdopi ac adfer, a chymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol?
- Pa mor dda yr ydym yn cefnogi pobl fregus?
- Pa mor dda yr ydym yn lleihau aildroseddu?
- Pa mor dda yr ydym yn adsefydlu pobl sydd wedi troseddu?
- Pa mor hyderus yw pobl gyda'r System Cyfiawnder Troseddol?



# CEFNOGI AC AMDDIFFYN PLANT A PHOBL IFANC A'U DARGYFEIRIO O'R SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL

## PAM BOD HYN YN FLAENORIAETH?

Mae anghenion, hawliau a lles holl blant a phobl ifanc yn hynod bwysig yn y byd plismona. Mae'r hawliau hyn wedi'u nodi'n glir o fewn egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 Llywodraeth Cymru.

Wrth blismona yng Ngogledd Cymru gwnawn geisio gwarchod plant rhag niwed, cynorthwyo dioddefwyr ifanc a thystion ac anelu i leihau erledigaeth fynych. Yn ychwanegol at hyn gwnawn weithio gyda phartneriaid i wella canlyniadau ar gyfer troseddwyr ifanc, er mwyn eu cynorthwyo i symud i ffwrdd o droseddoldeb. Yr ydym yn anelu i gadw'n pobl ifanc yn ddiogel a chaniatáu iddynt arwain bywydau iach, cyfrifol a chadarnhaol mewn hinsawdd y gallent gyfrannu a ffynnu.

Ar hyn o bryd mae'r nifer uchaf erioed o blant mewn gofal wedi cael eu riportio ar goll. Mae'r plant hyn mewn mwy o berygl o niwed, gan gynnwys camfanteisio rhywiol neu rwydo rhywiol ar gyfer gweithgarwch troseddol. Mae rhwydo rhywiol a gorfodi yn aml yn ceisio ynysu plant a'u hatal rhag gofyn am help. Mae'n hanfodol bod heddluoedd yn trin plant sydd wedi cael eu hecsbloetio fel dioddefwyr yn gyntaf - nid fel troseddwyr. Ni ddylai unrhyw blentyn na pherson ifanc fod o dan anfantais oherwydd eu statws gofal. Ar ôl bod yn ofalwr i berthynas ac ar ôl eistedd ar Banel Mabwysiadu Gogledd Cymru, yr wyf yn angerddol am ddarparu'r cymorth gorau posibl i bob plentyn bregus.

Mae angen dull penodol o ymgysylltu ar blant ac oedolion ifanc. Gall oedolion ifanc nad oes ganddynt ymddiriedaeth yn yr heddlu fod yn amharod i ymgysylltu ag asiantaethau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys riportio troseddau i'r heddlu fel dioddefwyr neu roi gwybodaeth fel tystion. Gall hyn wneud gwaith yr heddluoedd yn anoddach wrth ddatrys a mynd i'r afael â throseddau. Mae merched ifanc sy'n oedolion yn arbennig o amharod i riportio troseddau rhywiol. Mae hyn yn golygu efallai na fydd trosedd sy'n effeithio ar oedolion ifanc yn cael eu cynrychioli'n llawn mewn data riportio lleol ac efallai na fydd dioddefwyr sy'n oedolion ifanc yn cael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt. Byddwn yn defnyddio nifer o ddulliau i'n helpu i fesur barn ac adeiladu ar ganfyddiadau Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru.

Yr ydym hefyd eisiau gweld llai o bobl ifanc yn cael eu tynnu i'r system cyfiawnder troseddol. Fel Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru, byddaf yn gweithio gyda phartneriaid ar draws yr holl asiantaethau cyfiawnder troseddol i ystyried ffyrdd y gall cyfiawnder troseddol a phartneriaid cymunedol ehangach chwarae eu rhan i leihau nifer y bobl ifanc sy'n cyflawni troseddau ac yn dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.

Cydnabuwyd, o ystyried y prinder cyffredinol o lety digonol sydd ar gael i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yr Awdurdodau Lleol, pan ofynnir am wely ar gyfer pobl ifanc bregus sydd wedi cael gwrthod mechnïaeth gan yr heddlu, na fu digon o lety ar gael weithiau. Yn anffodus, mae hyn wedi arwain ar brydiau at bobl ifanc yn gorfod aros dros nos mewn celloedd yn y ddalfa, ac mae rhanddeiliaid yn cytuno nad yw er eu lles gorau.

Yr wyf yn ymwybodol bod y syniad o gadw 'gwely' wrth gefn ar gael i'w ddefnyddio mewn argyfwng mewn lleoliad nad yw'n llety cadw, ond yn ddiogel, yn cael ei dreialu. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid grant i redeg cynllun peilot am 3 mis. Yna bydd y peilot yn cael ei werthuso gan y grŵp a'i ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu atebion tymor hirach ledled Cymru.

## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Cefnogi Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid i atal a lleihau troseddu, aildroseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith plant a phobl ifanc.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau i ddiogelu pobl ifanc a'u hatal rhag gweithgarwch troseddol, boed hynny drwy ymgysylltu â phobl ifanc, cwnsela neu ddatblygu sgiliau.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod llety diogel addas ar gael fel nad yw'n ofynnol i unrhyw blentyn gael ei gadw yn nalfa'r heddlu.
- Cefnogi swyddogion cyswllt ysgolion sy'n gweithio'n agos gyda staff, rhieni a disgyblion i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder a nodi plant a phobl ifanc bregus.
- Comisiynu gwasanaethau adferol sy'n briodol i oedran, sy'n gynaliadwy ac ystyrlon, gan ystyried anghenion oedolion ifanc sy'n gysylltiedig. Gallai hyn gynnwys arferion adferol mewn lleoliadau addysgol, teuluol a chymunedol fel mesurau ataliol a chefnogaeth barhaus, yn ogystal â bod yn rhan o warediadau y tu allan i'r llys i ddargyfeirio oedolion ifanc o'r system cyfiawnder troseddol. Byddaf yn sicrhau bod yna wasanaethau dioddefwyr sy'n briodol i'w hoedran i ddiwallu anghenion dioddefwyr sy'n oedolion ifanc.
- Sicrhau bod safbwyntiau oedolion ifanc fel aelodau o'r gymuned a phobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol (fel dioddefwyr, cyflawnwyr, neu'r ddau) yn cael eu hadlewyrchu yn ein cynlluniau ymgynghori.
- Byddaf yn gweithio i sicrhau bod cyfweliadau dychwelyd adref annibynnol yn cael eu gwneud yn ofyniad statudol pryd bynnag y bydd plant yn cael eu riportio ar goll ac yn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu comisiynu gyda darparwyr annibynnol.

## BETH YDYM EISIAU EI GYFLAWNI?

- Cymunedau diogel a gostyngiad o ran troseddu
- Dioddefwyr a phobl fregus yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi
- Gostyngiad o ran aildroseddu a gwelliant o ran adsefydlu
- Pobl â hyder yn yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol

## CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

- Pa mor dda yr ydym yn atal ac yn lleihau troseddu?
- Pa mor dda yr ydym yn cefnogi pobl fregus?
- Pa mor dda yr ydym yn lleihau aildroseddu?
- Faint o hyder sydd gan bobl yn Heddlu Gogledd Cymru'n gyffredinol?



# MYND I'R AFAEL AG ACHOSION SYLFAENOL TROSEDDU A CHEFNOGI ADSEFYDLU POBL SYDD WEDI TROSEDDU

## PAM MAE HYN YN FLAENORIAETH?

Gall caffael cofnodion troseddol danseilio rhagolygon oedolion ifanc o ddatblygu hunaniaethau cadarnhaol, cael dyfodol di-drosedd, a gwireddu eu potensial yn llawn. Gall gwarediadau y tu allan i'r llys gynnig dewis amgen adsefydlu i atal aildroseddu neu leihau cynnydd mewn troseddu. Mae cyflwyno brysbennu a dulliau eraill o ddargyfeirio oedolion ifanc i ffwrdd o droseddu yn eu hatal rhag stigmateiddio cymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol.

Yn seiliedig ar y cynsail o warediadau tu allan i'r llys ac ein hegwyddorion rheoli troseddwyr, mae Checkpoint Cymru yn anelu i roi opsiwn credadwy yn lle erlyniad, drwy nodi a chynorthwyo anghenion perthnasol a'r 'llwybrau hanfodol' allan o droseddu, a'r canlyniad yw bod troseddwyr lefel isel a chanolig sy'n oedolion yn cael eu dargyfeirio o'r System Cyfiawnder Troseddol, tra bod hyn hefyd yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol eu hymddygiad troseddol.

Mae Checkpoint yn brosiect gwirfoddol i droseddwyr sy'n oedolion. Ond bydd hyn yn arwain at ymadawiad o'r system cyfiawnder troseddol os cydymffurfir gyda'r 'cytundeb i ymgysylltu' pwrpasol ac sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn . Bydd methu â chwblhau'r cytundeb Checkpoint yn arwain at achosion llys ffurfiol yn dod i rym. Mae Checkpoint yn defnyddio Llywiwr sy'n paratoi, cydlynu a chyflwyno'r cytundebau sydd wedi'u teilwra i'r unigolyn a chynorthwyo troseddwyr i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth i ymdrin ag achosion sylfaenol eu troseddu.

## BETH FYDDAF YN EI WNEUD?

- Ariannu rhaglen dargyfeirio Checkpoint Cymru
- Cefnogi a chomisiynu prosiectau arloesol ym maes atal ac adsefydlu troseddu
- Archwilio cyfleoedd gyda'r Gwasanaeth Prawf a phartneriaid eraill i gyd-ddylunio, cyd-ddatblygu a chyd-fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion troseddwyr ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ogystal ag ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad byw o'r gwasanaeth prawf

## BETH YDYM EISIAU EI GYFLAWNI?

- Gostyngiad o ran aildroseddu a gwelliant o ran adsefydlu
- Pobl â hyder yn yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol

## CWESTIYNAU CYFLAWNI ALLWEDDOL

- Pa mor dda yr ydym yn cefnogi pobl fregus?
- Pa mor dda yr ydym yn lleihau aildroseddu?
- Pa mor dda yr ydym yn adsefydlu pobl sydd wedi troseddu?
- Pa mor hyderus yw pobl gyda'r System Cyfiawnder Troseddol?

# CYLLID AC ADNODDAU

Er mwyn dangos y berthynas bwysig rhwng y blaenoriaethau heddlu a throsedd a nodwyd yn y cynllun hwn, a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r blaenoriaethau hynny, mae crynodeb o'r sefyllfa ariannol yn dilyn.

O'm cyllideb gyfan o £173.365m yn 2021/22, byddaf yn dyrannu cyllideb net o £170.159m i'r Prif Gwnstabl ar gyfer darparu plismona yng Ngogledd Cymru.

## ARIANNU HEDDLU GOGLEDD CYMRU


Yr wyf yn derbyn cyllid o ddwy brif ffynhonnell er mwyn ariannu Heddlu Gogledd Cymru, fy Nghronfa Diogelwch Cymunedol a'm swyddfa.

Yn 2020/21 bydd grantiau'r llywodraeth yn ariannu 48.27% o'm cyllideb, gyda'r 51.73% sy'n weddill yn dod o'r dreth gyngor.

Bwriedir cynnal adolygiad cynhwysfawr o wariant ar gyfer 2021/22, ac mae Fformiwla Ariannu'r Heddlu, sy'n pennu faint a gawn mewn grantiau'r llywodraeth, yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, ac mae hyn yn creu cryn ansicrwydd o 2022/23 ymlaen.

Dangosir manylion llawn cyllideb 2021/22 a rhagdybiaethau gweithredol ar gyfer blynyddoedd diweddarach yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

## ALLOCATION OF THE COMMISSIONER'S BUDGET IN 2021/22





Disgwylir i adnoddau ariannol barhau i fod yn her sylweddol i'r Heddlu. Yn ogystal â'r arbedion blynyddol o £33.031m a gyflawnwyd ers 2010/11, bydd angen arbedion ychwanegol i sicrhau y gellir cydbwyso'r gyllideb yn y tymor canolig i'r tymor hir gyda nifer o faterion yn parhau i greu ansicrwydd ariannol.

## LLE MAE'R ARIAN YN CAEL EI WARIO

Mae'r Cynllun Heddlu a Throsedd hwn yn canolbwyntio ar droseddau ffiaidd fel trais domestig, trais rhywiol a diogelu'r rhai mwyaf bregus. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn â'r angen i barhau â gwasanaethau plismona lleol a'r model plismona cymdogaeth, gan sicrhau hefyd bod pawb sy'n gweithio yn y rheng flaen yn cael cefnogaeth ddigonol gan y swyddfa gefn er mwyn sicrhau'r amser mwyaf posibl iddynt gyflwyno gwasanaethau'r heddlu.

Fel y mae'r Cynllun hwn yn tynnu sylw ato, mae'n bwysig ein bod yn parhau i fuddsoddi yn y dechnoleg a'r gallu digidol sy'n ein rhoi mewn safle i allu delio â'r heriau yr ydym yn debygol o'u hwynebu yn y dyfodol. O ganlyniad, byddwn yn parhau i gyflawni yn erbyn rhaglen o newid uchelgeisiol sy'n ymwneud â'r digidol a thechnoleg.

### DYRANIAD CYLLIDEB HEDDLU GOGLEDD CYMRU




Er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i gael yr effaith gorau, byddaf yn cadw at yr egwyddorion canlynol:

- Byddaf yn targedu adnoddau i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol a fy mlaenoriaethau heddlu a throsedd;
- Byddaf yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y cyflwynir gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Sicrhau ein bod yn cael y budd ariannol a chymdeithasol mwyaf posibl i bobl Gogledd Cymru. Yr wyf wedi ymrwymo i egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 sy'n cael eu cynnwys yn eiddgar yn ein Polisi Gwerth Cymdeithasol.
- Sicrhau bod staff a swyddogion wedi'u darparu'n briodol a chael gwasanaethau cymorth digonol i wneud y mwyaf o'r amser sydd ganddynt i gyflawni gwasanaethau plismona.

Er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol, byddaf yn monitro incwm a gwariant drwy gydol oes y Cynllun Heddlu a Throsedd hwn. Bydd proffiliau gwerth am arian HMICFRS yn fy nghynorthwyo gyda'r gwaith hwn, drwy fy ngalluogi i gymharu Heddlu Gogledd Cymru â heddluoedd eraill.

## BUDDSODDIAD CYFALAF

Y maes gwariant cyfalaf mwyaf yn ystod y blynyddoedd nesaf fydd buddsoddi yn yr ESN (Rhwydwaith Gwasanaethau Brys) – sy'n disodli system radio Airwave. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys £8m at y diben hwn, ac er mwyn lleihau'r angen i fenthyca ar gyfer hyn, sefydlwyd cronfa wrth gefn i roi arian o'r neilltu i dalu'r gwariant hwn pan ddaw'r amser.

## CYNALIADWYEDD A DATGARBONEIDDIO

O dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, mae'n ofynnol i Gymru gyfrannu at darged Sero Net 2050 y DU a chyllidebau carbon y DU. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i riportio ar amcanion, camau gweithredu a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o ran effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyfrannu at y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trawsnewid Cymru i fod yn Sero Net; gyda deddfwriaeth bellach yn cael ei datblygu yn ystod 2021 i bennu targedau allyriadau interim ar y llwybr i Gymru Sero Net. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu 'map ar gyfer datgarboneiddio' er mwyn i Sector Cyhoeddus Cymru gael Statws Sero Net Carbon erbyn 2030.

Yn unol â deddfwriaeth a'r strategaeth ehangach hon, mae'n ofynnol i heddluoedd ddatblygu Strategaeth Gynaliadwyedd a fydd yn nodi llwybr at leihau allyriadau carbon, mewn ymgais i sicrhau allyriadau sero net yn unol â deddfwriaeth Cymru a deddfwriaeth y DU. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda heddluoedd eraill Cymru i ddatblygu ei Strategaeth, Cynlluniau Datgarboneiddio a Chynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy diwygiedig, gan gydnabod bod y 2020au yn gyfnod tyngedfennol ar gyfer gwneud cynnydd hyd at 2030.

Mae'n debygol y bydd y cynnydd yn ystod y Cynllun Heddlu a Throsedd hwn yn cynnwys camau gweithredu mewn perthynas â'r meysydd hyn: defnyddio datrysiadau sy'n isel o ran carbon; ehangu cyflenwadau ynni carbon isel; lleihau'r galw am weithgareddau carbon uchel ac ystyried trawsnewid tir

## CRONFEYDD WRTH GEFN A GWYTNWCH

Fel un o'r gwasanaethau brys, gall yr heddlu weithiau wynebu un neu fwy o weithgareddau ar raddfa fawr gydag effaith ariannol sylweddol. Er mwyn mynd i'r afael â'r risg hon a lleihau effaith digwyddiadau o'r fath o ddydd i ddydd, mae angen cadw cronfeydd wrth gefn sylweddol. Mae hyn yn sicrhau y gellir pennu ymatebion brys drwy anghenion plismona yn hytrach na'r hyn sy'n fforddiadwy.

Yn ogystal, gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn ar sail un tro i liniaru effaith unrhyw newidiadau i grantiau'r llywodraeth yn y dyfodol.

Defnyddir y Gronfa Gyffredinol (£5.417m ar 31 Mawrth 2021) i ariannu anghenion llif arian o ddydd i ddydd ac i ddarparu'r llinell gyntaf o wytnwch. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhoi manylion llawn am fy nghronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, ac unrhyw ddefnydd arfaethedig

## COMISIYNU

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn caniatáu i mi gomisiynu gwasanaethau'n uniongyrchol gan ddarparwyr y tu allan i wasanaeth yr heddlu. Mae arian o'r ffynonellau a restrir isod bellach yn cael ei dalu'n uniongyrchol i gomisiynwyr:

- Camddefnyddio Sylweddau (y Swyddfa Gartref)
- Grant Diogelwch Cymunedol (y Swyddfa Gartref)
- Grant Trosedd Ieuenctid ac Atal Camddefnyddio Sylweddau (y Swyddfa Gartref)
- Incwm o'r Ddeddf Enillion Trosedd
- VAWDASV - Llywodraeth Cymru
- Cyllid DIODDEFWYR - y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Strydoedd Diogelach - y Swyddfa Gartref
- GPCEM
- Bwrdd Cynllunio Ardal
- Cronfa Cefnogi Pobl
- Incwm o'r Ddeddf Gwerthu Eiddo a Ganfuwyd
- Mentrau Cynhyrchu Incwm Penodol
- Ffynonellau ariannu eraill o gronfeydd y Comisiynydd

Gall comisiynu gwasanaethau olygu prynu gwasanaethau i mewn, ymrwymo i gytundebau neu gontractau cydweithredu, darparu grantiau, alinio cyllidebau â phartneriaid, cyfuno cyllidebau a datblygu cyllidebau cymunedol.

Un o'm cyfrifoldebau yw sicrhau bod fy nghyllidebau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i sicrhau bod dioddefwyr yng Ngogledd Cymru yn cael y gofal a'r gefnogaeth gorau posibl er mwyn eu helpu drwy eu taith bersonol i ymdopi ac adfer o effaith trosedd.

Byddaf yn dyrannu arian a chomisiynu gwasanaethau sy'n cyd-fynd yn agos â chyflawni fy amcanion fel yr amlinellir yn y Cynllun hwn.

Am y deuddeg mis blaenorol comisiynodd fy rhagflaenydd y gwasanaethau canlynol

- Canolfan Cymorth Dioddefwyr Gogledd Cymru
- Eiriolwr Annibynnol Trais Rhywiol (ISVA)
- Cynghorwyr Trais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc (CYPSVA)
- Gwasanaeth Cynghori Trais Domestig Rhanbarthol
- Dechrau Newydd
- Gwasanaeth Braenaru i Ferched
- Checkpoint Cymru

Mae'n amlwg i mi fod pob un o'r gwasanaethau hyn yn darparu gwasanaethau hanfodol sy'n cefnogi fy mlaenoriaethau plismona newydd a byddaf yn parhau i'w comisiynu ar gyfer 2021-2023.

Nid yw'r broses bresennol o ddyrannu cyllid i gomisiynwyr heddlu a throsedd yn flynyddol yn addas ar gyfer cynllunio tymor hir digonol. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig diweddar, mae llywodraeth ganolog wedi dyrannu cyllid ychwanegol i Ogledd Cymru i gynorthwyo gyda rhestrau aros a darparu staff ychwanegol er mwyn cefnogi gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol tan 2023. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi'i gyd-gomisiynu ag awdurdodau lleol, Gwasanaethau Carchardai a Phrawf EM a'r Bwrdd Cynllunio Ardal. Yn ystod 2020-21 mewn ymateb uniongyrchol i'r pandemig, llwyddodd y tîm comisiynu i ennill mwy o gymorth o ran partneriaeth ag awdurdodau lleol o lywodraeth ganolog a llywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cefnogi pobl fregus yng nghymunedau Gogledd Cymru.







## GOFYNIAD PLISMONA STRATEGOL

Mae rhai agweddau ar blismona sy'n gofyn am ymateb cenedlaethol, gan gydbwyso rhwng gofynion lleol a gofynion cenedlaethol. Mae'r Gofyniad Plismona Strategol (SPR) yn nodi'r bygythiadau cenedlaethol a'r galluoedd plismona cenedlaethol priodol sy'n ofynnol i wrthsefyll y bygythiadau hynny. Mae'n ofynnol i gomisiynwyr heddlu a throsedd a phrif gwnstabliaid roi sylw dyledus i'r SPR. Yn ddiweddar, mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi cyflwyno deddfwriaeth sydd ei hangen ar frys a fydd yn rhoi rhai o'r pwerau grymusaf yn y byd i'r DU fynd i'r afael â'r bygythiad cynyddol gan derfysgaeth ryngwladol ac eithafiaeth ddomestig. Bydd hyn yn cryfhau'r pwerau presennol i amharu ar allu pobl i deithio dramor i ymladd, lleihau'r risgiau y maent yn eu cynrychioli wrth ddychwelyd a gwrthsefyll yr ideoleg sylfaenol sy'n bwydo, yn cefnogi ac yn caniatáu terfysgaeth.

## TRYLOYWDER A CHRAFFTER

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae craffu ar berfformiad yr Heddlu yn un o'm dyletswyddau pwysicaf. Fy nyletswydd gyffredinol yw darparu heddlu sy'n effeithlon ac yn effeithiol, sy'n rhoi gwerth am arian ac yn lleihau troseddu. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon mae gennyf system dryloyw ar gyfer craffu ar y Prif Gwnstabl a'i ddwyn i gyfrif am ddarparu gwasanaethau plismona yng Ngogledd Cymru.

Yr wyf yn craffu ar gyflawni'r Cynllun hwn drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol. Drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol (y Bwrdd) yr wyf yn craffu ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throsedd, yn monitro perfformiad plismona a'r gyllideb blismona. Y Bwrdd yw fy mhrif fforwm gwneud penderfyniadau a chyhoeddir yr holl bapurau perthnasol a phenderfyniadau sylweddol ar fy ngwefan. Yr wyf yn derbyn adroddiadau annibynnol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC).

## PERFFORMIAD AC ATEBOLRWYDD

### DWEUD EICH DWEUD

Fel y dangosais gyda'r broses ymgynghori gynhwysfawr ar gyfer y Cynllun hwn, mae gwrando ar farn y cyhoedd am faterion plismona a throsedd yng Ngogledd Cymru yn hanfodol i'm galluogi i fonitro effaith y Cynllun hwn a sicrhau bod fy mlaenoriaethau'n parhau i adlewyrchu blaenoriaethau'r cyhoedd. Byddaf yn ymgysylltu â'r cyhoedd, y trydydd sector, y gymuned fusnes a'n partneriaid yn aml. Bydd yr adborth o'r ymgysylltu hwnnw yn fy ngalluogi i gael cipolwg go iawn ar berfformiad yr Heddlu a'm swyddfa. Byddaf yn ystyried canfyddiadau'r ymgysylltu hwnnw i lywio fy ngwaith craffu ar yr Heddlu ac yn parhau i ailedrych ar y blaenoriaethau a nodir yn fy Nghynllun.

Yr wyf wedi nodi'r modd y bydd y Prif Gwnstabl yn riportio i mi ar ei ddarpariaeth o blismona a'r modd y caiff ei berfformiad ei fesur. Y prif ddull o gyflawni'r amcanion hyn fydd drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol (y Bwrdd), gwaith craffu a wneir gan fy Nirprwy a'm swyddfa, ac archwiliadau allanol a mewnol. Mae rhagor o wybodaeth am waith y Bwrdd ar gael ar fy ngwefan.

### Y PANEL HEDDLU A THROSEDD

Mae gan y Panel Heddlu a Throsedd yr awdurdod statudol i adolygu fy Nghynllun Heddlu a Throsedd ac i graffu ar fy ngweithgareddau fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Drwy fy Nghynllun Cyhoeddi, yr wyf yn anelu at gyhoeddi gwybodaeth i gynorthwyo'r Panel a'r cyhoedd i ddilyn fy ngwaith a'm gweithgareddau. Yn ogystal ag ymateb i'w geisiadau am wybodaeth a'i gwestiynau, yr wyf yn darparu adroddiadau cyfnodol ar fy ngweithgareddau fel Comisiynydd a'm cynnydd yn erbyn y Cynllun hwn. Fy ethos yw y bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chyhoeddi oni bai bod rheswm penodol dros beidio â gwneud hynny.

### Y CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau wedi sefydlu Cydbwyllgor Archwilio, a'i swyddogaeth yw cefnogi a herio rhai gweithgareddau a gyflawnir gan Heddlu Gogledd Cymru a'm swyddfa, a darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd, rheoli risg ac adrodd sy'n sail i lywodraethu da a safonau ariannol. Mae rhagor o wybodaeth am waith y Cydbwyllgor Archwilio ar gael ar fy ngwefan.

# YR HYN Y MAE'R CYHOEDD YN EI DDWEUD WRTHYM

Mae deall ac ymateb i anghenion ein cymunedau yn ffocws allweddol i mi fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac i'r Prif Gwnstabl.

Yr wyf wedi ymrwymo i wrando ar farn y cyhoedd am faterion plismona a throseddu yng Ngogledd Cymru a fydd yn hanfodol i'm galluogi i fonitro effaith y Cynllun hwn a sicrhau bod fy mlaenoriaethau yn parhau i adlewyrchu blaenoriaethau'r cyhoedd.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr er mwyn llywio'r Cynllun hwn. Roedd arolwg ar-lein ar gael am dros 6 wythnos, tra bod copïau papur a fersiwn hawdd eu darllen hefyd ar gael i'r rhai nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd. Cymerodd y Prif Gwnstabl a minnau ran hefyd mewn sesiwn holi ac ateb byw ar Twitter a gafodd dderbyniad da. Cynhaliwyd hysbysebion radio hefyd er mwyn targedu cynulleidfa iau. Yr wyf wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod eu barn hefyd yn cael ei hystyried.

Derbyniwyd cyfanswm o 2,279 o ymatebion. Yr wyf wrth fy modd bod y cyhoedd yn gefnogol iawn i'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun hwn, fel y gwelir isod.

Mae dadansoddiad manwl pellach ar ganlyniadau'r arolwg cyhoeddus i'w weld ar fy ngwefan yma.

| Blaenoriaeth | Dim yn bwysig o gwbl | Ychydig yn bwysig | Pwysig | Eithaf pwysig | Pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymdrin â throsedd trefnedig ac atal niwed difrifol | **0.4%** | **1.1%** | **8.7%** | **8.9%** | **81%** |
| Amddiffyn pobl fregus rhag niwed a chamdriniaeth | **0.3%** | **1.6%** | **13%** | **14.7%** | **70%** |
| Ymchwilio i droseddau seiber | **1.2%** | **7.8%** | **27.3%** | **26.7%** | **36.9%** |
| Lleihau'r nifer o wrthdrawiadau ar y ffyrdd, y rhai hynny a gafodd eu lladd neu a anafwyd yn ddifrifol a throseddau traffig | **1%** | **6%** | **24%** | **17%** | **51%** |
| Ymdrin â thrais domestig | **0.4%** | **2.2%** | **15%** | **17%** | **65%** |
| Amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camfanteisio a cham-drin rhywiol | **0.1%** | **0.5%** | **5.8%** | **7.1%** | **86.4%** |
| Ymchwilio troseddau cefn gwlad a bywyd | **3%** | **13%** | **28%** | **25%** | **30%** |
| Amddiffyn plant ar-lein | **1%** | **4.9%** | **14.4%** | **15.6%** | **64%** |
| Achosion iechyd meddwl | **3.4%** | **10.8%** | **26%** | **22.8%** | **36.9%** |

***Nodyn:*** *oherwydd talgrynnu efallai na fydd cyfanswm y % yn cyrraedd 100%*

# MESURAU TROSEDD A PHLISMONA CENEDLAETHOL

Yn ogystal â'r blaenoriaethau lleol a nodais yn y Cynllun hwn, rhaid i'r Prif Gwnstabl a Heddlu Gogledd Cymru hefyd ystyried y mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth y DU, fel y dangosir isod.

Fel CHTh, mae'n ofynnol i mi ddarparu datganiad blynyddol ar berfformiad Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn y mesurau hyn ac felly bydd yn monitro'r perfformiad hwn drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol a'r strwythur llywodraethu y cyfeirir ato'n gynharach yn y Cynllun hwn.

| Maes Blaenoriaeth | Metrigau cenedlaethol |
|---|---|
| Lleihau llofruddiaethau a dynleiddiaid eraill | Dynladdiadau |
| Lleihau trais difrifol | Derbyniadau i'r ysbyty o rai dan 25 oed am ymosodiad gyda gwrthrych miniog |
| | Troseddau sy'n ymwneud â rhyddhau dryll tanio |
| Aflonyddu ar gyflenwi cyffuriau a llinellau cyffuriau | Dynladdiadau yn gysylltiedig â chyffuriau |
| | Atgyfeiriadau'r heddlu at driniaethau cyffuriau |
| Lleihau trosedd mewn cymdogaethau | Byrgleriaeth, lladrad, dwyn cerbyd a dwyn o gerbyd, dwyn o unigolyn |
| Gwella boddhad ymysg dioddefwyr gyda ffocws penodol ar ddioddefwyr cam-drin domestig | Boddhad â'r heddlu ymhlith dioddefwyr cam-drin domestig |
| | Boddhad dioddefwyr â'r heddlu |
| Ymdrin â seibrdroseddu | Hyder yn ymateb gorfodi'r gyfraith i seiberdroseddu |
| | Canran y busnesau sydd wedi dioddef achos o ymosodiad seiber |

# SUT I GYMRYD RHAN

## HEDDLU GWIRFODDOL

Mae'r Heddlu Gwirfoddol yn swyddogion heddlu gwirfoddol sy'n rhoi peth o'u hamser sbâr fel hyn am eu bod am wneud cyfraniad yn eu cymunedau. Prin yw'r sefydliadau, os o gwbl, sy'n cynnig yr amrywiaeth o gyfleoedd a welwch fel rhan o Heddlu Gwirfoddol yn Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r Heddlu Gwirfoddol yn rhan hanfodol o wasanaeth yr heddlu, gan weithio ochr yn ochr â swyddogion arferol i leihau troseddu ac amddiffyn pobl fregus. Mae bod yn swyddog gwirfoddol yn ffordd o ddatblygu sgiliau newydd wrth wasanaethu'r gymuned leol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn gwnstabl gwirfoddol, ewch i: Dinasyddion mewn Plismona | Heddlu Gogledd Cymru am ragor o wybodaeth.

## GWIRFODDOLWYR CYNORTHWYOL YR HEDDLU

Mae nifer o rolau gwirfoddol o fewn yr heddlu. Mae pob rôl yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi Heddlu Gogledd Cymru, ac mae'n ffordd o dalu'n ôl i'r gymuned.

Os oes gennych ddiddordeb mewn rôl Gwirfoddolwr Cefnogi'r Heddlu, ewch i Dinasyddion mewn Plismona | Heddlu Gogledd Cymru.

## CADETIAID HEDDLU

Ar hyn o bryd mae Heddlu Gogledd Cymru yn rhedeg cynllun cadetiaid, lle mae pobl ifanc 15-17 oed yn gwirfoddoli i helpu eu cymuned leol, darganfyddwch fwy am sut mae'r heddlu'n gweithio, a chael cyfle i weithio tuag at wobrau a chymwysterau. Mae Cadetiaid Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn ymwneud â gwahanol agweddau ar blismona, fel cymryd rhan mewn ymgyrchoedd profi-a-prynu. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn Gadét yr Heddlu, ewch i Dinasyddion mewn Plismona | Heddlu Gogledd Cymru.



# ATODIAD 1 - Beth mae CHTh yn ei wneud

Mae'r ddeddfwriaeth a sefydlodd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011) yn nodi mai fy nyletswydd bwysicaf yw darparu heddlu effeithlon ac effeithiol, sy'n dangos gwerth am arian ac yn anad dim yn lleihau troseddu.

**DYMA RAI O'M TASGAU ALLWEDDOL:**

- Pennu cyllideb a praesept yr Heddlu (canran y dreth gyngor a ddefnyddir at ddibenion plismona)
- Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni ei brif ddyletswydd, sef darparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon i Ogledd Cymru, darparu gwerth am arian a lleihau troseddu
- Dosbarthu cyllid trosedd ac anhrefn i grwpiau ar draws Gogledd Cymru
- Nodi mewn Cynllun Heddlu a Throsedd y cyfeiriad strategol ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru.

Fel cynrychiolydd y cyhoedd, yr wyf yn awyddus iawn i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar yr holl wybodaeth berthnasol. Oni bai bod rheswm penodol dros beidio, bydd yr holl wybodaeth ar gael ar fy ngwefan. Mae'r dull hwn eisoes yn fuddiol gan fod fy swyddfa wedi cael dyfarniad o dryloywder gan CoPACC1[1] pob blwyddyn ers 2017.

Yr wyf hefyd yn cydnabod y rôl bwysig y mae Heddlu Gogledd Cymru yn ei chwarae yn yr economi leol. Yr ydym yn cyflogi dros 2,000 o bobl ac yn prynu nwyddau a gwasanaethau gwerth miliynau o bunnoedd. Er y byddaf yn sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian, credaf hefyd fod gennym ddyletswydd i gaffael nwyddau'n lleol lle bynnag y bo modd ac yr wyf wedi ymrwymo i Bolisi Gwerth Cymdeithasol i Heddlu Gogledd Cymru.

## O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 mae'n rhaid i'r CHTh:



Sicrhau heddlu effeithiol ac effeithlon ar eu hardal



Apwyntio'r Prif Gwnstabl, dal nhw i gyfrif am redeg yr heddlu, ac os yw'n angenrheidiol eu diswyddo nhw




Gosod amcanion ar gyfer eu hardal drwy'r cynllun heddlu a throsedd



Gosod cyllideb yr heddlu A phenderfynu ar y praesept



Cyfrannu at y gallu i blismona cymunedol a chenedlaethol a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref



Dod a phartneriaid diogelwch a chyfiawnder troseddol gydau gilydd, i sicrhau bod blaenoriaethau lleol yn cael eu cydlynu

[1]Mae CoPACC yn monitro safonau ym maes llywodraethu'r heddlu, gan asesu perfformiad Swyddfa'r Comisiynydd a dyfarnu marciau ansawdd mewn meysydd atebolrwydd allweddol.

# **ATODIAD 2 -** Gwybodaeth am Ogledd Cymru

Gogledd Cymru yw un o'r lleoedd mwyaf prydferth i fyw ac ymweld ag o yn y DU. Gyda phoblogaeth o 687,500, mae ardal Heddlu Gogledd Cymru yn cwmpasu arwynebedd o 6,300 cilomedr sgwâr sy'n ymestyn o Bronington yn y dwyrain i Aberdaron yn y gorllewin ac o Fae Cemaes yn y Gogledd i Aberdyfi yn y De. Mae ardal yr Heddlu yn cwmpasu chwe sir ddaearyddol Gogledd Cymru, sef Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Gwasanaethir ardal yr Heddlu gan un Bwrdd Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r ardal hefyd yn cael ei gwasanaethu gan yr Ymddiriedolaeth Prawf Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Mae'r ardal yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig gan gynnwys dwy ddinas, Parc Cenedlaethol Eryri, dau borthladd o bwys (Caergybi ym Môn a Mostyn yn Sir y Fflint), rhanbarthau diwydiannol sy'n ehangu a nifer o drefi prysur, llawer ohonynt yn denu nifer fawr o dwristiaid yn ystod misoedd yr haf.



SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

www.northwales-pcc.gov.uk

@NorthWalesPCC

@NorthWalesPCC

northwalesopcc